# Polisi Diogelu Rhag yr Haul

Yn Ysgol Llanbedrog ein dymuniad yw bod ein staff a'n disgyblion yn mwynhau'r haul yn ddiogel. Byddwn yn gweithio gyda staff, disgyblion a rhieni i geisio sicrhau hynny trwy:

## ADDYSGU

**Fel ysgol byddwn yn codi ymwybyddiaeth:**

- pob disgybl o'r peryglon trwy gyflwyno o leiaf un wers 'Diogelu Rhag yr Haul' yn flynyddol.
- sut i gymryd mesurau call pan maent yn yr haul, ar ddiwedd gwasanaethau ysgol gyfan ar ddechrau tymor yr haf.
- rhieni a gwarcheidwaid o'r camau a gymerir gan yr ysgol ynghylch diogelu rhag yr haul a sut y gallant gynorthwyo.

## DIOGELU

**Tra perir tywydd poeth byddwn yn annog:**

- plant a staff i aros yn y cysgod e.e. ger coed ar y buarth/cae chwarae, ger adeiladau'r ysgol.
- plant i aros dan do mewn tywydd eithriadol – fe'u cedwir mewn ystafell penodol dan oruchwyliaeth.
- plant a staff i yfed digonedd o ddŵr.
- gweithgareddau chwaraeon allanol i'w cynnal cyn 11:30 yb ac ar ôl 2.00 yp o hyn ymlaen.
- rhieni i gydymffurfio â pholisi gwisg Addysg Gorfforol yr ysgol gan gynnwys gwisgo hetiau haul yn yr ysgol, gall plant wisgo crysau 'T' llewys hir yn hytrach na byr a defnyddio eli haul.
- atgoffa staff o'r angen i warchod eu hunain rhag yr haul
- defnyddio eli haul ar wibdeithiau ysgol ac yn ystod oriau ysgol arferol (o leiaf SPF 15 – i'w roi gan rieni cyn bod y plant yn gadael y cartref) - ni allwn gyflenwi eli haul i bob disgybl yn ddyddiol oherwydd y gost ond byddwn yn fodlon i'r plant ddod â pheth hefo nhw i'r ysgol.
- Nodir, ni chaiff y staff roi eli haul ar y plant

Mewn achos difrifol, bydd prosesau gofal arferol cymorth cyntaf yr ysgol yn dod i rym.

Mabwysiadu: Tymor y Gwanwyn 2014

Adolygwyd: Tymor yr Haf (bob 3 blynedd)

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:** **Gwenllian Hughes**

**Dyddiad:** 12/5/25